

# Glas

Bwletin misol  
*Llên*  
natur  
Rhif 169  
Mawrth 2022

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn

Mis lluniau gwiwerod oedd Chwefror 2022: tudalen 4 a 5



Llun Hugh Rowlands, Nant y Dilyw Llangefni 11 Ionawr 2022

Cyhoeddir **Glas** gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia  
Cysylltwch â ni trwy [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)



## Y Ci Corddi



**Rhywyn yn cofio'r dull yma o gorddi gyda ci\*? Clywais mai yn Fron Olau, Llithfaen, oedd y lle olaf i ddefnyddio ci i gorddi yn y cyffiniau.**

Netta Pritchard

\*Melin draed (*treadmill*)

### Lle fu cwn corddi wrthi

Bu i'r diweddar Isgoed Williams ddweud mai yn fferm Llwyn Derw (o dan ddyfroedd llyn Traws ers 1928 bellach) oedd yr unig fuddai ci yn yr ardal gwyddai amdan.

Keith O'Brien

Isod nodir Llithfaen, Chwilog, Rhosgadfan o bosib, Llwydiarth Esgob, Môn.

Mae nodyn gan John Gwilym, Llannerch-y-medd:

“Ysgwyddau fel ci corddi – dywediad cymwys tu hwnt am ysgwyddau trwm a chyhyrog, y math sydd gan gi corddi. Gafaelgi neu costowgi fel arfer (*bull mastiffs*) oedd yn troedio'r felin droed i droi traul y corddwr llaeth; roedd ei ysgwyddau yn hynod o gyhyrog trwy'r ymarfer corfforol cyson. Ar yr ystadau a'r ffermydd mawrion y cadwyd cŵn corddi ac roedd dau bwrpas iddynt, i droi y corddwr llaeth ac amddiffyn y teulu. Llwydiarth Esgob, yn nyddiau'r hen deulu Pritchard, cyndadau teulu presennol Tom Bown, oedd y lle olaf yn Llannerch-y-medd i gadw cŵn corddi. Huwi Owen y Llan, gŵr fy modryb, chwaer fy mam, oedd yn llawn hanes cŵn corddi, gan mai dyma oedd ei gyfrifoldeb cyntaf fel gwas bach 11 mlwydd oed yn 1911 – tendiad y cŵn corddi a'u harolygu wrth eu gwaith a'u gollwng yn rhydd gyda'r nos. Roedd hefyd gŵn corddi yn Pen Cefn Mawr, y Llan ac ym Mhlas Bodewryd, Rhosgoch ar yr un pryd. Roedd tendiwr y cŵn corddi, yn ôl straeon Huwi Owen, yn dipyn o jarff ymysg gweision bach eraill o achos eu bod yn medru meistrolï'r cŵn mawr, cryf yma gyda thueddiad ynddynt i fod yn hynod o ffyrnig a milain.”

(Rydym yn gobeithio cyhoeddi gwaith John Gwilym cyn yr haf - Ymadroddion Môn fydd enw'r llyfr.) Philip Lowies

Rwy'n cofio, yn blentyn, weld buddai yng nghegin fferm hen-ewythr, yn Nyffryn Clwyd yn y 1960au. Ond tan heddiw nid oeddwn wedi clywed am gwn yn gorddi. OND: cofiaf weld - unwaith, ryw bum mlynedd yn ol - fod ar wyliau - yn Wiltshire, os cofiaf yn iawn. Mynd i mewn i hen dafarn am banad, a gweld yn y lle tan eang ryw arddangosfa o fel yr oeddent, ers talwm, yn cadw ci i droi'r "spit" - y gigwain, neu'r ber [pwy sy'n defnyddio'r geiriau hyn?] - wrth rostio cig. Dafydd Morris

### Creulon neu ddim?

Roedd yn greulon iawn i gŵn, yn troi mewn cylch am amser hir. Margaret Roberts

Cofio nhad yn son am gi corddi yn ardal Rhosgadfan (dwi'n meddwl) unwaith oedd y ci ar yr olwyn, roedd yn ddigon hapus i gorddi, ond pe byddai yn cael hanner cyfle, cyn cychwyn ar y gwaith, fe fyddai'n diflannu i fyny'r mynydd ac yn gwrthod dod yn ôl Idris Jones

Clywais am gi tebyg yn ardal Chwilog hefyd - yn gwybod pa ddiwrnod y byddai corddi ac yn diflannu am y diwrnod! Twm Elias

Cofio gweld y ffermydd ym Mhen Llŷn yn corddi ond ddim efo ci ella - wedi cael ei wahardd erbyn y 60au. John Ginger Vevar

## Adar y Wladfa - Luis Carrizo

### Teyrn sbectol



Pico de plata *Hymenops perspicillatus* - Heddiw (22 Mawrth 2021) yn llyn La Zeta – Esquel

Mae hanes a manylion byw yr aderyn hynod hwn ar gael ar y Wici Cymraeg Teyrn sbectol

**Nodyn:** Mae tair diben i'r gyfres hon: 1. ysgogi tudalennau o wybodaeth llawnach ar y rhywogaethau o adar dan sylw ar y WiciCymraeg, 2. Creu cysylltiadau â naturiaethwyr Y Wladfa a manau eraill yn y byd a 3. pontio rhwng y Plwyfol a'r 'Global'.

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni: [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)

## Y Gegin Foch



Cegin Foch, locws, Pwllheli. Mae corn crwn y taldra yma yn reit anghyffredin  
Dafydd Richard Hughes

### ■ O'r Tywyddiadur 1838

**3 Chwefror 1838, Llansannan (cyfnod o oerfel mawr)**

One poor parish pauper girl Elizabeth Roberts of Tan y Fron, Llansannan was found frozen to death washing potatoes to give to the pigs

O ddyddiadur Daniel Jones, Dinbych (Llyfrgell Prifysgol Bangor)

**Cwestiwn:** Pam yn y byd oedd Elizabeth druan yn teimlo ei bod hi'n gorfod golchi'r tatws cyn eu bwydo i'r moch? - a hithau wedi talu'r pris eithaf....

Golygydd

**Ateb:** Cyn eu coginio? [DRH] Cytunaf. Ni ddylid rhoi tatws amrwd i foch. Mae rhaid eu berwi. [JW]

Dafydd Richard Hughes a Jackie Wilmington




Boiler i ferwi bwyd moch ym Mhenllŷn 2008 - mi welais un hefyd ar fferm Moelyci, Tregarth.  
Llên Natur

### ■ Yn Llydaw

Mae'r dau lun nesaf yn dangos system wahanol yn Llydaw. Mae gen i gof plentyn am bair 'anferth' yn y gegin foch. Roedd y pair hwn yn cael ei ddefnyddio yn bennaf i goginio bwyd moch, yn arbennig tatws nad oedd yn bosibl eu gwerthu.

Mae'r llun o'r tu allan (ca 1900) yn dangos gwahanol ddarnau o'r pair oedd wedi'u gwneud o haearn bwrw: a-simdde, b-pair, c-lle tân, d- traed, e-caead (mawr) - nid yw'r llun yn dangos y caead bach. Roeddwn i wedi anghofio sawl litr oedd yn ei ddal ond ar ôl gwneud syms mi fyddwn yn dweud rhyw 120 l yn fras! Roedd y math hwn o bair yn cael ei ddefnyddio hefyd mewn priodasau anferth yng nghefn gwlad. Roeddent yn cael eu cadw mewn cegin fach (gyda drws mawr, er mwyn eu symud!). Cafodd ein pair ni, yn Keroulaz, ei ddefnyddio hyd at ganol y saithdegau. Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio ymddangosodd offer eraill yn y gegin fel y peiriant sleisio betys a'r felin falu ŷd drydan. Wedyn, cafodd y gegin ei throi yn garej oedd yn ddigon mawr i gar Renault Clio. Roedd Mam yn defnyddio'r pair tu allan i ail-blannu ei "hysgellog" (*Cichorium intybus* / witloof / chicory)!



Cefn y gegin foch ("loj fourno(z)"), Keroulaz, Plwyf Persken (Mor-Bihan, Llydaw) - Mae'r gegin nodweddiadol hon ym mhen y beudy a oedd hefyd yn gartref ar un adeg.

Dominig Kervegant

## Digwyddiad y Mis: Storm Eunice

**Chwefror 2022: mis y tri storm**  
(Dudley, Eunice a Franklin)



Rhybydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd: "Dyw'r DU ddim yn gwneud digon i gadw i fyny â'r risg gynyddol o dywydd eithafol. Bydd y DU yn dod yn fwy dibynnol ar drydan yn y dyfodol felly mae angen i ni gynllunio'n well ar gyfer y digwyddiadau hyn. Dywed eu cadeirydd y Farwnes Brown y gallai methiannau yn y system drydan achosi sgil-ffeithiau difrifol - fe allai systemau dŵr a chyfathrebu fethu ac ni fydd pobol yn gallu defnyddio eu ffonau i brynu nwyddau". (BBC Radio 4).



difrifol - fe allai systemau dŵr a chyfathrebu fethu ac ni fydd pobol yn gallu defnyddio eu ffonau i brynu nwyddau". (BBC Radio 4).

Gareth Pritchard

## Lloches gaeaf y swrcodyn



### Be ydy enw y gwyfyn yma os gwelwch yn dda ?

Llanfihangel Genau'r Glyn. 30ain o Ionawr 2022. Yn y tŷ - ar wal yn y llofft. Harri Lloyd

Ateb: SWRCOD (herald moth) – beth yw tarddiad yr enw? Cewch [esboniad](#) ym mwletin 139, tud. 4

Mae unrhyw le llonydd, oer yn fan gaeafu i rhain. "Cefais hwn yn y capel bore yma wrth lanhau - roedd wedi mynd i we pry cop ond roedd yn dal yn fyw. Cyntaf i ni yma yn Tŷ Capel Bethel Golan, SH533416 ar 3 Ebrill 2014" Arfona a Tom Jones

## Wiwerod llwyd mewn llefydd annisgwyl ar ddisberod yn yr hydref


- Wedi gweld un ar gopa Moel Siabod Iwan Williams
- Welsom ni yn wythnos dwytha ar y ffordd i lawr o Gyrn Wigau - roeddwn yn poeni amdano fyny fano - dim llawer o le i guddio! (Medi 2021) Heledd Quaeck
- Cofnod o wiwer lwyd ar ben Pen yr Oleu Wen rai blynyddoedd yn ôl (hwnnw ddechrau mis Awst): 1/9/1991 Llyr Gruffydd
- Wiwer Lwyd yn [croesi Llyn](#) Clywedog Dydd sul diwethaf. 14 Medi 2021 - Pryderi Hedd
- Dim llun ohoni ond gwelais wiwer lwyd ar rodfa'r gogledd yn Aberystwyth heddiw. Rhaid ei bod wedi teithio cryn dipyn o bellter drwy'r stydoedd o'r coed agosaf. Jackie Willmington
- Welsom ni un ar gopa'r Moelfre, Ardudwy fis diwethaf (Awst 2021). Ifan Llewelyn Jones
- Dwi wedi gweld un "ganllath o gopa'r mynydd" - ar Moel Eilio, ychydig flynyddoedd yn ôl. Robert Williams
- A finna wedi gweld un ar Fynydd Drws y Coed ar Grib Nantlle, rai blynyddoedd yn ôl - er mawr syndod! Ddim yn cofio pa adeg o'r flwyddyn. Elen Huws
- Ar ben Moel Faban diwadd mis Mai (2021). Emma Marshall

## Goroesi tywydd caled y gaeaf (parhad)



**Gwilym A Roberts:** Mae gan y wiwer lwyd well siawns na llawer i greadur arall o oroesi tywydd caled y gaeaf, gan fod ganddi fwydlen mor amrywiol.

Roedden ni'n son yn [Glas 168](#) am wiwerod coch a llwyd fel testun trafodaeth gyson ar dudalen FB Cymuned Llên Natur. Dyma ychydig o bwyntiau ychwanegol a phoster amdany'n nhw. Llên Natur



Cofnodion gwiwerod llwydion a chochion yng Ngymuned Llên Natur ers 2017

Ar ôl gwneud dadansoddiad sydyn o'ch holl gofnodion gwiwerod llwydion a chochion yn y grŵp hwn ers 2017 (134 o gofnodion â dyddiad iddynt), dyma'r graff wedi ei seilio arnynt (yr echel niferoedd yn golygu'r cyfiri o gofnodion). Mae'n eitha diddorol: penllanw y cofnod yn y gwanwyn a'r haf cynnar, wedyn yn ddistewach cyn i gywion y flwyddyn chwyddo'r boblogaeth (yn fy marn i) yn yr hydref (dyna pryd y gwelwch benllanw eu cyrff ar y lôn. Ac wedyn llai ohonyn nhw yn gaeaf (gaeaf-gysgu yn rhannol efallai, neu y rhai ifanc yn marw o newyn neu stress. (Cofiwch y postiad am wiwerod llwydion yn mentro i gopaon mynyddoedd). Llên Natur

## Y gyfraith

Nid ydym yn trafod materion cyfreithiol yn aml yn Glas, ein bwletin, ond mae un drafodaeth brwd ar dudalen CYMUNED LLÊN NATUR yn ein arwain at bwyntio ar yr hyn sy'n gyfreithlon neu beidio - ee. Symud gwiwerod llwydion. Mae'r pwyntiau cyfreithiol diddorol [yma](#) ma ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Y wiwer goch

"Mae'r wiwer goch yn brin yng Nghymru. Mae'r prif boblogaethau ar Ynys Môn, yng nghoedwig Clocaenog ac yng nghanolbarth Cymru, ond fe'i gwelir mewn ambell fan arall hefyd. Mae'r wiwer goch dan fygythiad oherwydd y wiwer llwyd, sy'n lledaenu clefyd (firws brech y wiwer) ac yn cystadlu am yr un bwyd.

Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi gwarchodaeth lawn i wiwerod coch o dan Atodlen 5".

### Y wiwer llwyd

"Daeth y wiwer llwyd i Brydain o Ogledd America. Mae wedi'i rhestru ar Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon i'w rhyddhau neu adael iddyn nhw ddianc i'r gwyllt. Os ydych chi'n trapio gwiwer llwyd, ni ddylech ei rhyddhau i'r gwyllt oni bai eich bod wedi cael trwydded gan CNC. Gan fod gwiwerod coch yn dal yn bresennol mewn sawl man ledled Cymru y duedd yw peidio â rhoi trwyddedau o'r fath. Dim ond os gellir dangos na fyddai unrhyw fygythiad i wiwerod coch y rhoddir trwydded. Mae'n rhaid cael gwared ar wiwerod llwyd mewn modd trugarog.

Os ydych chi'n trapio gwiwerod llwyd mewn ardal lle mae yna wiwerod coch, dylech gymryd camau i sicrhau na fydd gwiwerod coch yn cael eu dal yn ddamweiniol a chymryd mesurau bioddiogelwch priodol i atal clefyd rhag lledaenu o'r gwiwerod llwyd i'r gwiwerod coch."



■ Kevin Hughes ■ 16 Medi 2021  
■ Ar ben Gyrn Wigau



■ Rowlands Hugh Nant Y Dilyw, Llangefni  
■ 6 Rhagfyr 2021 ■ Yma i gadw llygad ar pawb



■ Gwilym A Roberts ■ 7 Rhagfyr 2021



■ Hywel Meredydd Davies ■ Cyw wiwer fach fentrus... ■ Coed Cyrnol ■ 25 Ionawr 2019



■ Aled Davies-Jones ■ 3 Chwefror 2022, Nant Gwrtheyrn ■ Wiwer heb glustiau?



■ Bethan Vaughan Davies ■ 1 Ionawr 2020, Pwllheli ■ Wiwer lwyd dew iawn, gormod o gnau mae'n siwr



■ Scott Sauders ■ Wiwer goch, Nant y Dilyw, 7 Chwefror 2022



■ Tony Pope ■ Wiwer goch ■ Llangefni 2 Mehefin 2021



■ Dennis A Jones ■ 21 Ionawr 2021  
■ Diwrnod y wiwer goch



■ Sion Jones ■ Abergele, dydd Mawrth y 15fed o Hydref 2019 ■ «O flaen fy nghartref p'nawn heddiw - Wiwer lwyd yn chwilio am fwyd»



■ Dys Griffiths ■ 21 Ionawr 2021  
■ Diwrnod y Wiwer Goch



■ Rowlands Hugh ■ Nant y Dilyw, 14 Mai 21 ■ Wiwer Goch yn rhuthro o gwmpas yn claddu

## Crynodeb Tywydd Misol

	Uchaf	Isaf	Cyfartaledd
Tymheredd	14.1 °C	0.9 °C	5.7 °C
Gwlithbwynt	10.4 °C	-1.4 °C	3.6 °C
Lleithder	97 %	64 %	87 %
Gwlybaniaeth	53.45 mm	--	--
Cyflymdra gwynt	52.9 km/h	0.0 km/h	6.0 km/h
Plyciau gwynt	71.6 km/h	--	8.1 km/h
Cyfeiriad y gwynt	--	--	De
Gwasgedd	1,014.83 hPa	966.24 hPa	--

### Glas 169 crynodeb tywydd misol Maes Gwynedd Waunfawr Ionawr 2022

Dyma grynoded tywydd Ionawr 2022 o orsaf dywydd Maes Gwynedd, Waunfawr (diolch i Gethin Pritchard) Ionawr 1, 2022 - Ionawr 31, 2022

## Pryfed yn dangos eu tymor

**Hoffi hwn yn fawr - dim ond ym mis Ionawr neu Chwefror fasa'n bosib tynnu'r llun yma (eirllys). Dwi'n cofio ceisio (a methu) cael llun o fantell dramor ym mis Chwefror ar saffrwm yn yr ardd 16 Chwefror 2004 (ar ôl y mewnfudwyr a gyrrhaeddodd wythnos ynghynt). Cofnodwyd llwch tebyg i lwch sahara ar y ceir bore y diwrnod blaenorol. Byddai hwnnw ond yn bosib yr adeg hon o'r flwyddyn.**

Golygydd

Cafodd Robin Williams lun i'r un perwyl:

Mae'r gwenyn mas yn peillio'r Lili Wen Fach ar ddiwrnod gwanwynnaidd iawn o Chwefror. Mae plannu bylbiau gwanwyn fel eirlysiau, saffrwm, cennin pedr a glas yr eira yn rhoi cymaint i fyd natur ar adeg dyngedfennol yn y flwyddyn.

Robin Williams

Gwelais innau (Gol.) fantell dramor ffres ar y saffrwm yn yr ardd 16 Chwefror 2004 (ar ôl y mewnfudwyr a gyrrhaeddodd wythnos ynghynt). Cofnodwyd llwch tebyg i lwch sahara ar y ceir bore y diwrnod blaenorol - byddai gwynt o'r Sahara wedi cludo mewnfudwyr o'r de yn ddi-lol.



**Dim ond ym mis Ionawr neu Chwefror fasa'n bosib tynnu'r llun yma (gwenynen ar eirllys)**

Gwenynen gynnar, ar eirllys. Treborth, ddoe [3 Chwefror 2022].

Scott Saunders




Dydi lluniau o'r math yma ddim yn gyfyngedig i'r gwanwyn cynnar chwaith. Dyma atgyfodi cyfraniad blaenorol ym Mwletin Llên Natur:

Llun Robin Williams

## Ail ehediad y Copor Bach

Dyma löyn y copor bach yn blasu blodau seren y morfa ar



y Foryd Bach, Llanwnda (Arfon) y llynedd. Ni allai'r llun hwn fod wedi ei dynnu ond yn yr hydref. Mae seren y morfa yn ei flodau yn y tymor hwnnw, a dyma'r ddau efo'u gilydd yn yr un llun. (Gyda llaw, perthynas agos seren y morfa yw blodyn Mihangel - dyddiad Hên Wyl Mihangel yw'r 10<sup>ed</sup> o Hydref). Am y cyntaf i gael llun sydd yn

dangos ehediad cyntaf y glöyn bach yma yn y gwanwyn - ar y friallen efallai?

## Llun arbennig o aderyn cyfarwydd

Llun gwreiddiol o'r aderyn mwyaf cyfarwydd gan Gareth Ellis<sup>®</sup> o Nant y Pandy, Llangefni. Ardderchog! 21 Chwefror 2022



Gareth Ellis

## Sgrin fawr y cymylau



**Unrhyw syniad be all fod yn creu'r adlewyrchiad?**  
[22 Ion 2022 mae'n debyg] Yn Llanddaniel 'da ni ac wrth gwrs yr Wyddfa tu ôl i'r adlewyrchiad. Heb ei weld o'r blaen. Fe barhaodd am tua ugain munud cyn gwanhau a diflannu.  
Peredur Jones

Dyma ffenomenon hollol newydd i nifer ohonom. Beth yw'r 'drych' sy'n adlewyrchu pelydrau'r haul o flaen Bwlch Llanberis, a'u taflud ar y cymylau? A pham nad ydio'n fwy cyffredin? Mae Carolyn Roberts wedi cynnig maes paneli solar. A rhai mwy rhamantus fel Angharad Owen a'i chywed o blant yn gweld draig yn siâp. Ond adlewyrchiad llyn sydd fwyaf tebygol. "Mae'r siap yn iawn i fod yn llyn Padarn. Da de!"

meddai Geraint Thomas

## Afiechydon adar

### Y feirws papilloma neu *Cnemidocoptes*

O gasgliad lluniau adar Llyn Parc Mawr a Traeth Rhosneigr 9 Chwefror 2022 (y ddau jibinc)

Eirlys Ruhi

Edwards-Behi


Mae *Papillomavirus* yn achosi cyflwr croen papillomatosis neu 'tassel foot'. Mae gwiddon *Cnemidocoptes* yn achosi *Cnemidocoptosis* neu 'scaly foot' ERE-B

Dyma ddywed y cyn-milfeddyg Jackie Wilmington: "Mae effeithiau *papillomavirus* a *Cnemidocoptes* yn debyg i'w gilydd ac mae angen profion labordy i wahaniaethu rhyngddynt. Gall y ddau effeithio ar yr un aderyn. Dylid glanhau byrddau bwydo adar yn gyson. Lle mae nifer o adar wedi'u heffeithio, dylid ystyried peidio â chynig bwyd. Nid yw *papillomavirus* llinosod na *Cnemidocoptes* yn effeithio ar bobl (er dylid bod yn ofalus wrth drin adar a theclynnau bwydo gan fod adar yn cario heintiau eraill). Rwyf wedi anfon adroddiad er gwybodaeth at *APHA Wildlife Expert* Grŵp sy'n monitro heintiau bywyd gwyllt."

Jackie Wilmington

### *Trichomonosis*

Carolyn Wager anfonodd y ddau llun ar y dde (o ardal Bangor?)



*Trichomonosis* o bosibl sydd ar y llinos bengoch a'r pila gwyrd.


Dewi Lewis

### Bwydo adar ai beidio

Ydi hi'n amser i ni i gyd cael sgwrs am fendithion ac anfafeision bwydo adar yr ardd ar y lefel diwydiannol (£200-300 miliwn y flwyddyn ym Mhrydain) sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Dyma rai o'r ffeithiau ac effeithiau posibl y dylen ni fod yn barod i'w wynebu:

- Os ydym yn onest, rydym yn bwydo adar nid er eu lles nhw ond er ein pleser ni ein hunain.
- HIV, Covid, SAARS: a oes gysylltiad rhwng bwydo adar ar y lefel hon, a'r heintiau newydd peryglus hyn?
- Yr Argyfwng Natur: beth, os unrhyw beth, mae bwydo adar yn cyfrannu i liniaru'r argyfwng?
- Bod 'byrddau' adar yn welyau haint allai neidio o'r adar i anifeiliaid eraill gan gynnwys NI?
- Bod cyflenwad parod o fwyd artiffisial dros aeafau cynyddol dyner yr 'hinsawdd newydd' yn newid pwysedd detholiad (selection pressure) ar ein hadar a'u prae mewn ffyrdd na ellir eu rhagweld.
- A yw rhai rhywogaethau yn 'manteisio' ar y bwyd yn well nac eraill, a bod cynnydd yn y titw glas a thitw mawr er enghraifft yn achosi amddifadu adar fel titw'r helyg a thitw'r wern o gyfleoedd, gyda'r canlyniad eu bod ar eu ffordd i ddifodiant?
- Yn yr un modd a ydi'r cyfleon nythu mae'r ddau ditw (glas a mawr) llwyddiannus a chynyddol yma yn eu cael trwy gychwyn eu cylch nythu cyn bod adar fel y gwybedog brith yn cyrraedd yn y gwanwyn yn golygu eu bod yn amddifadu'r gwybedogion o nythfeydd.
- Ydi rhai rhywogaethau megis titw cynffon hir yn cael eu denu o'r newydd gan fwyd artiffisial (yn enwedig peli sailm) ac oes oblygiadau (da neu ddrwg) i hynny?
- Bod cyrff cadwraeth adar yn gyndyn o wynebu gwir oblygiadau bwydo adar oherwydd y manteision ariannol sy'n dod yn ei sgil.
- Ydi hi'n hwyr glas arnom i feddwl mwy am ein gerddi fel adnodd bywyd yn hytrach na gwthio ein prynwriaeth (*consumerism*) ar ein bywyd gwyllt.

Adnodd i blant, athrawon a rhieni



\*Tipyn o waith chwilio mewn ffynonellau gwahanol gan fod ambell i air yn perthyn i wahanol feysydd yn hytrach nac anatomeg yn unig

<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ffolen	ystlys	gwar	pen y glun	ewin ffêr	llygad
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ffroen	gên	pen-glin	cynffon	egwyd	carn
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
clun	ysgwydd	clust	sawdl	penelin	gwaell y goes gefn
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
pen-lin	gwddf	coes flaen	corn	gên isaf	cudyn ysgwydd